

LLEISIAU O LAWYR FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

FFATRI METCALFE'S, BLAENAU FFESTINIOG (1955-95?)

Cyfwelai: VN015 Mrs Pegi Lloyd Williams
Dyddiad: 25 Chwefror 2014
Cyfwelydd: Helen Ellis ar ran Archif Menywod Cymru
Trawsysgrif: Catrin Stevens

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Dyddiad geni: 1923. O ran cefndir cafodd ei hysgol i gyd yn Sir Feirionnydd achos roedd hi'n ifanc **'yn dod i fyny, yn Sisnas ar y pryd'**, roedd wedi colli ei thad a'r cartref yn y de wedi rhyw chwalu. Cafodd addysg gynradd arbennig o dda ('a ddaru mi i gymryd o mewn sydd beth arall') – *slate quarries girls's school* a phasiodd yr arholiad unarddeg i fynd i ysgol County School. Roedd hi'n un ar bymtheg oed yn gadael yr ysgol – yn y pumed dosbarth yn paratoi am arholiad y CWB sef y Matric ond yn anffodus yn yr hydref, ar ôl bod yn y pumed dim ond deufis, cafodd drawiad ar y galon a bu gartref am fisoedd **'a dyna ddiwadd 'n addysg ffurfiol i'**. **'A deud y gwir ron i reit falch o gâl mynd achos on i'n rhedeg i swydd p'run bynnag.'** Bu ganddi hiraeth ar ôl yr ysgol am ychydig ond **'roedd y byd mawr wedi agor i mi'**.

Ei swydd gyntaf oedd gyda merch oedd yn rhedeg busnes glo llwyddiannus dros ben, a hefyd yn adeiladu tai a gwerthu brics a sment a bob un dim. Roedd hi eisiau rhywun yn yr offis gan mai ei merch hi oedd yn gwneud hynny ar y pryd, ond roedd wedi priodi ac ar fin rhoi genedigaeth i'w phlentyn cyntaf. Bu gyda hi am bedair blynedd a chael addysg ardderchog gyda dynas fusnes ardderchog. Roedd hyn tua dechrau'r rhyfel.

3.00

Yn dilyn hynny – a hithau yn adeg y 'call up'. Doedd hi ddim yn adnabod llawer o ferched oedd yn cael eu galw i fyny, ond fe gafodd hi bapurau a gwrthododd fynd. **'Felly dwi'n un o'r merched hynny sy'n gwybod beth yw bod o flaen tribiwnlys yn erbyn bod i'n barod i**

fynd i – rhwbath fasa’n helpu efo’r rhyfal doeddwn i ddim am ‘i wneud o. Ac yn y tribiwnlys roedd y merched yn holi fi’n dwll, ac yn trio deud wrtha i “Well, what did you think of the Wrens? You’d look smart in that...’. Cred nad oedd wedi mynd yn bell iawn ar gyfer y tribiwnlys (Penrhyn?) ond yn y Blaenau yr oedd yr ail yn sicr. **‘Doch chi’n câl dim trugaradd gynnyn nhw.... Gwrthod yn llwyr ‘nes i’** Byddai wedi bod yn fodlon mynd i’r Fyddin Dir ond chafodd hi ddim mynd. Felly cafodd ei rhoi yn y ‘naffy’ – roedd naffy blues (?) lle roedd y merched yn gweini mewn cantîns mawr a ‘*naffy goods*’ – gwaith swyddfa. Roedd *naffy goods* ym mhob camp milwrol, - yn prynu pob peth i mewn a hwythau wedyn yn dosbarthu’r cyfan. Yn y lle cyntaf cafodd ei rhoi mewn camp milwrol yn Traws(fynydd), wedyn i Dywyn, ac yna i Donfannau. Roedd yn gwisgo kakki – **‘ron i ddigon del ynddo fo’** – sgert o ddeunydd fel fyddai gan yr *officers* – **‘deunydd neis, smart ‘te’,** a byddai’n cael ambell i saliwrt er nad oedd yn yr *army*. Teimla iddi fod yn lwcus i fynd i’r *naffy goods* gan fod yno ferched yr un fath â hi ac na fyddai wedi ffitio i mewn yr un fath yn y *naffy blues*. Yn Nhonfannau roedd yn aros i mewn. Cafodd ei symud yno gyda dim ond rhyw awr o rybudd am fod rhywun arall wedi gwneud rhyw giamocs efo’r pres neu rywbeth a clirio hwnnw i fyny. Cafodd drafferth gyda’i chalon eto. Er ei bod wedi byw bellach i oedran da mae wedi cael trafferth gyda’i chalon sawl tro.

6.46

Daeth yn ôl i Blaenau wedyn, **‘Ges i’r fraint adeg hynny, o gael swydd fel on i’n gwella, efo Evan Tudor and Son yn Nhrawsfynydd ... un o freintiau mwya mywyd i oedd cael bod yn ysgrifenyddes i Dafydd Tudor.** ‘Roedd e wedi gadael yr ysgol yn naw oed, ond gorffennodd ei yrfa yn Uchel Siryf Sir Feirionnydd. Dyn busnes oedd e ac mae hithau’n ddynes fusnes hefyd. Bob prynhawn dydd Mercher byddai’n eistedd gyda hi i ddweud cyfrinachau a hithau’n llyncu’r cyfan. Roedd e’n torri coed a phrynu stadau mawr a bu ganddo contract go fawr (ei gwmmi felly) i weithio o dan afon Conwy cyn gwneud y twnnel. **‘A dwi’n meddwl mai yn fan’no y ces i flas ar waith peirianyddol’.** Erbyn hyn roedd y rhyfel drosodd a phethau wedi dechrau dod yn ôl a’r hogiau wedi dod nôl. **Bu hi efo fe am ddeg mlynedd nes iddi briodi a doedd ei gwr ddim yn licio llawer ei bod hi fel gwraig briod yn dal bys am hanner awr wedi saith a dod adre am chwech gyda’r nos, a hithau â gofal cartre, a gofal gwneud bwyd.** Cafodd gynnig swydd fel ysgrifenyddes i Mr Metcalf – mewn ffatri a oedd wedi’i hadeiladu i bwrpas gan Gyngor Tref Ffestiniog i ddarparu gwaith i’r hogia. Roedd e’n ddyn busnes da hefyd ond Dafydd Tudor roddodd yr addysg orau iddi hi. Ffatri Metcalfe.

9.24

Roedd hi wedi datblygu ei diddordeb mewn gwaith peirianyddol trwy wneud cwrs ar sut i brynu fel prynwr - buyer. Ond ysgrifenyddes fu hi yn y ffatri. Mi roedd y ffatri yn cynhyrchu peiriannau i bario tatws, i wneud *chips*, i dorri pob math o gigoedd e.e. bacwn, a pheiriannau mawr i gymysgu bwyd - safon *commercial* (nid y rhai mwya). Peiriannau cegin go fawr. Roedd ei thad yng nghyfraith yn rhan o’r cwmni – yn berchen y rhan fwyaf o’r

shares a hithau fel petai yn ail iddo fo. Felly bu hi'n *engineering buyer*. Ffatri fechan oedd hi – yn cyflogi rhyw 50 o ddynion a nifer o ferched yn y swyddfeydd. Ar ôl iddi orffen ei chwrs hi oedd y prif swyddog agosaf at y bôs ei hun. Roedd hi'n deall y peiriannau.

Bu cyfnod pan gafodd hi fynd i lawr i Gaerdydd i stiwdios HTV '**achos bod hi'n hynod o beth bod 'na ferch yn cymryd y gwaith hwnnw mae'n debyg.**' Bu'n Llundain ... '**Gwaith on i wrth fy modd hefo fo. Doedd o ddim yn hawdd ... ac roedd o'n tynnu'r petha da allan ohonoch chi ... 'n swydd i oedd edrych bod popath yn rhedag mor esmwyth â phosib.**' Mae'r ffatri yn dal mewn bodolaeth, ond erbyn heddiw, maen nhw'n mewnforio'r peiriannau modern, ac yn eu gwerthu nhw. Ac wedyn dim ond chwech neu saith o ddynion sydd yno.

13.00

Mae wedi'i lleoli yn ardal Glanpwell. Roedd stesion y tren yn ymyl yn enwedig pan oedd Cyngor Ffestiniog yn meddwl am adeiladu. Bellach y stesion wedi mynd.

Cyflogau? – y bechgyn yn grefftwyr, yn beirianwyr – y rhai hynaf yn gorfod dod â'u papurau i ddangos eu bod wedi pasio a chymhwyso. Genod oedd yn yr offis ac roedd hi'n gwylltio – cafodd ei ffordd ar y diwedd – cymryd bachgen i mewn o'r ysgol i hyfforddi mewn gwaith peirianyddol a chymryd merch i mewn o'r ysgol a'i chyflwyno hi i waith offis. Roedd y raddfa tâl ac roedd hi'n ddig nad oedd y bechgyn a'r merched yma yn cael eu talu yr un fath. '**Mi gymerodd amsar i mi. Ond diwadd y gân – os oedd hogan yn dod i mewn i weithio i'r offis roedd hi'n cael beth bynnag roedd yr hogyn yn gael.**' '**Dysgu roedd y ddau**'. Ond fu dim un merch yn gweithio ar lawr y ffatri a heddiw dynion yn unig sy'n gwneud y gwaith peirianyddol. Mae rhyw 10 yn y swyddfa rwan. Mwy o waith swyddfa rwan gan nad yw'r ffatri yn cynhyrchu dim byd. Pan oedd hi'n gwneud y peiriannau, a chwmnïau tebyg iddyn nhw, roedden nhw'n cael eu gwneud i bara am oes. Ond rwan os gwnaiff peiriant bara am ddwy-dair blynedd ... Heddiw maen nhw'n gyrru'r peiriannau'n bell. Mae'r cwmni yn dal ym mherchnogaeth yr un teulu – Mr Metcalfe, yna'i fab yng nghyfraith – Thomas Richards, yna'u mab nhw- Max Richards a bellach ei fab yn rhedeg y busnas ar ôl i'w dad ymddeol. Hen gwmni, ar ôl y Rhyfel Byd cyntaf – o Coventry. Wedi bod yn y Blaenau am 60 mlynedd – mis Medi 1954. Dechreuodd hi weithio iddyn nhw yn 1955 a bu yno am 40 mlynedd – roedd yn 69 yn ymddeol.

17.08

Undebau Llafur? Dau Undeb yno – un ar gyfer y trydanwyr (mae'n meddwl) a...? Doedd dim undeb ar gyfer y rhai oedd yn y swyddfa. Amodau gwaith - Roedd popeth yno yn y swyddfa at eich gwaith chi – roedd pob peth roedd pob clerc eisiau ar ei desg ei hun. Roedd mân ddamweiniau yno weithiau ond '**dim, dim, dim, dim**' mawr.

Pythefnos o wyliau a gwyliau Banc i gyd. Rhai gweithwyr yn teithio yno ar y bws o Traws, ac ar un adeg ar y trê'n o Traws i stesion Blaenau. Erbyn hyn roedd ganddi hi ei hun ysgrifenyddes a staff iddi hi ei hun, a byddai'r ysgrifenyddes yn dod i fyny ar y bws ac yn

cyrraedd yn y gwaith toc wedi wyth. Felly byddai hi'n rhoi gwaith i'r ferch yma fel y gallai fynd adre erbyn pedwar. Byddai hi ei hun yno tua hanner awr wedi wyth. 'Don i ddim yn cydweld ond **'gwaith oedd yn bwysig i fi ac on i'n câl gwaith'**. Teimla fod y ddynes hon yn mynd adre ar yr amser prysura – pan oedd y merched eraill yn troi'r llyfrau allan yn trio dod i ddiwedd eu gwaith. Roedd hi neu Mr Richards yn rhoi'r gwaith ar dâp iddyn nhw gan ei gadael hi'n rhydd i wneud gwaith arall. Gallai fynd dipyn yn wyllt i deipio'r holl lythyrau mewn pryd, gan eu bod yn ateb y ffôn hefyd, **'Don i ddim yn ei weld o'n deg iawn, ond roedd o'n waith iddi hi on'd oedd? Ond roedd 'na dipyn o bwysau - rhoi tegwch i bawb.'**

Roedd hi'n mwynhau y gwaith. Fu hi ddim ar gyrsiau hyfforddi tra bu hi yno. Daeth y cyfrifiaduron i mewn pan oedd hi bron â gorffen yno, ac roedd hi'n gyrru'r merchaid (i'r cyrsiau).

Roedd swyddfa *accounts* yn gwneud y cyflogau. Roedd hyn yn dipyn o waith oherwydd doedd y tâl ddim '*ar flat rate*', roedd pwysau ar beth oedden nhw'n ei droi allan. Roedd hyn yn waeth pan oedd hi'n gweithio i Tudor's yn Traws, gan fod ganddyn nhw chwarelwyr yn gweithio iddyn nhw, bechgyn yn y coedwigoedd, gwahanol swyddfeydd, *locking and talking* (?), a loriau yn cario coed a tsaeniau i'w cadw'n saff, - roedd gwaith mawr gwneud cyflogau yn fan'no.

22.26

Sôn am Glynllifon – plasty yn eiddo i'r Arglwydd Newborough – yr un teulu â pherchen Rhug a lle arall yn ochr Caernarfon a llawer o diroedd ac ystadau yn yr ardal. Mae wedi'i gladdu mewn bedd unigol iddo'i hun ym mynwent Llan Ffestiniog tua 1919. Mae Newborough Street yn dal yno heddiw. Bydden nhw'n gwneud lot efo'r plasau – stadau ganddo ond dim arian parod – a byddai galw ar Tudor i fynd draw i dorri coed mawr i lawr. Roedd yr Arglwydd Newborough wedi rhoi'n hysbys ei fod e am werthu'r lle a chymerodd Tudor e – roedd efail, *home farm* yna, ac anifeiliaid a phlasty ac roedd y Newboroughs yn byw yno ar y pryd (aeth yn Goleg yn ddiweddarach) ac roedd hi'n mynd yno. Roedd hi'n gwybod ers tua blwyddyn bod gwerthu a phrynu am fod ond doedd hi ddim wedi dweud wrth unrhyw un. Roedd hi'n canlyn ar y pryd – y gŵr, a'r newyddion yn y Daily Post yn dweud bod Evan Tudor and Sons wedi prynu'r plasty am £75,000 – ar ol y Rhyfel (byddai'n filiynau heddiw).

Yn rhinwedd ei swydd byddai'n mynd yno – dros 100 o ystafelloedd yn y plasty ac yn y cyntedd roedd llun bychan ar y wal – tŵr eglwys digon di-nod ac wyneb cloc bychan a phan oedd y cloc yn taro roedd pob ystafell yn y plasty'n ei glywed. Mae'r cloc heddiw yn fferm yr Aber, Trawsfynydd. Cyfnod hynod o ddi-ddorol. Hyd yn oed pan ddaeth hi'n ocsiwn ar gynnwys y tŷ, doedd y Tuduriaid (Dafydd neu Robin) ddim yn gallu bidio a chynnig pris, felly byddai hi'n eu cynrychioli. Dim mwy na £5 – gwerth pres ddim yr un fath heddiw wrth gwrs. Llwyddodd i gael ambell beth. Gorfodwyd Tudor i'w werthu (y stad) achos *compulsory purchasing powers* gan fod Sir Gaernarfon angen yr adeilad i'w droi'n goleg

amaethyddol. Hyd yn oed pan brynodd Tudor y lle i gychwyn roedd yn rhaid iddo adael 30 llath o goed rownd y waliau i gyd gan gwtogi llawer ar y coed roedd e'n cael eu torri. Gorfodwyd ef i werthu a chofia fynd yno wedyn a thorri'i chalon – gweld y bobl ifanc yn rhedeg i fyny ac i lawr y grisiau. Gwerthwyd y cyfan bryd hynny. A chafodd e ddim dewis y pris ychwaith.

Mae Pegi wedi gweithio ar hyd ei hoes yn rheoli dynion yn gweithio – ar lawr y ffatri! Fu dim rhaid idd erioed ofyn i ddyn i wneud rhywbeth iddi – gofyn ‘Robin, beth am i ti wneud hwnna?’ a byddai'n gwneud. Nid gorchymyn ond awgrymu.

29.00

‘I mi mae sgwrs gyffredinol efo merchaid ... am gyrtans a coginio a plant a prynu a – nac oes, does gyn’na i ddim diddordab – petha angenrheidiol dwi’n gwbod’

Er ei bod yn 90 oed – mae'n dal i yrru car ac i ddefnyddio cyfrifiadur – mae sgiliau peiranyddol wedi parhau felly. Teimla fod ganddi le i ddiolch – er ei bod wedi cael trafferthion mawr gyda'i chalon – triniaethau yn Gobowen a Lerpwl, ond **‘dwi yn credu hyn, fe gesh i ail-gynnig, ail-gyfla’** felly nid yw'n mynd i wastraffu yr hyn sydd ganddi heddiw. Mae'n ansicr a fyddai wedi dilyn yr un llwybr heddiw. Bu'n rhaid iddi ddal ei phriodas yn ôl am ei bod yn gweithio ar y prosiect mawr yng Nghonwy – gorfod gweithio ar gostau pob peth a phrisio'r gwaith **‘ar y pryd roedd o'n job go ryfadd i ferch wneud ond dwi reit ddiniwad ‘n ffordd cofiwch,’** mae'n gallu rheoli dynion **‘heb iddyn nhw sylweddoli’**.

English summary

FFATRI METCALFE'S, BLAENAU FFESTINIOG (1955-95?)

Interviewee: VN015 Mrs Pegi Lloyd Williams
Date: 25 February 2014
Interviewee: Helen Ellis on behalf of Women's Archive Wales
Transcript: Catrin Stevens

Pegi was born in 1923 and educated in Merionethshire. She had a good primary school education and passed her eleven plus exam to go to County School. She'd been preparing for the CWB exam (the Matric) when she was in the fifth form, but had a heart attack and was forced to stay home for months. This signified the end of her formal education and she left school when she was sixteen. She was glad anyway, because she already had a job lined up. She did miss school but felt that the world was opening up for her.

Her first job was working for a woman who ran a successful coal business. The woman also built houses, and sold bricks and cement. She was looking for somebody to work in the office to take the place of her daughter who was about to give birth. Pegi worked for her for four years (during the period before the war.)

3.00:

Pegi was called up after this, but even though she had received her call up papers refused to go. She had to go before a tribunal (to Penrhyndeudraeth?). **“In the tribunal the women questioned her relentlessly, “Well, what did you think of the Wrens? You’d look smart in that...”** She would have been happy to go to the Land Army but she was put in the ‘naffy’. There was the naffy blues (?) where the girls served in large canteens and naffy goods which involved office work. There was a naffy goods in every military camp, buying in goods and distributing them. She was placed in a military camp in Trawsfynydd, and then went to Towyn and later on to Tonfannau. She wore a khaki skirt and she would receive the odd salute even though she wasn’t in the army. She felt fortunate that she had joined naffy goods because the girls there were similar to her and she wouldn’t have fitted in with the girls in the naffy blues. She lived in Tonfannau. She was moved there after just an hour and a half’s notice because of the actions of somebody else who had messed around with the money. She had heart trouble again and even though she has lived to a good age, she has had trouble with her heart many times.

06.46:

She returned to Blaenau and got a job with Evan Tudor & Son in Trawsfynydd. **“One of the biggest privileges of my life was working as secretary for Dafydd Tudor.”** He was a businessman who had left school at nine years old but eventually became High Sheriff of Merionethshire. He would sit down with her every Wednesday and tell her secrets, and she would digest everything he said. He cut trees and bought large estates, and his company had a large contract to work under the Conway river before the tunnel was built. She thinks he gave her a taste for engineering work. The war had ended by now and the soldiers had started coming home. **She worked for him for ten years until she got married. Her husband didn’t like the idea of her, as a married woman, catching a bus at half past seven in the morning and not coming home until six o’clock in the evening, and then having to do the work at home and cook.** She was offered a job as secretary to Mr Metcalf in a factory that had been built by Ffestiniog Town Council for the boys coming home from the war. Mr

Metcalf was also a good business man but it was Dafydd Tudor who had given her the best education.

9.24

She had developed an interest in engineering work by doing a buyers' course. But she worked as a secretary in the factory. It produced machines to peel potatoes, to make chips, to cut all types of meat. It also made commercial machines to mix food which were quite large. Her father-in-law was part of the company. He was the largest shareholder, and she was second in command to him. She worked as an engineering buyer. It was a small factory and employed fifty men, and women in the offices. After she had completed her course she was the chief officer closest to the boss and understood the machines.

She talks of representing the factory at the HTV Studios in Cardiff, and on trips to London. The factory still exists but now it imports modern machines and sells them, and only employs six or seven men.

13.00:

It is located in the Glanpwell area. The factory was near the train station, which was a consideration for the council when they were planning building it, but the train station is now closed.

Boys worked there as craftsmen and engineers, and the oldest ones had to bring their papers to show they were qualified. The girls went to work in the office. It made her angry that boys were taken on from school to be trained to do engineering work but girls were only taken on to work in the office. They wouldn't be paid the same rate. She changed this so that a girl training in the office would be paid the same rate as a boy training to do his work, although this took time. There were no women working on the factory floor and today all the engineers are men. There are approximately ten working in the office today and there is more office work because the factory doesn't make anything. The machines they made were built to last a lifetime. These days they last about two or three years. The company is still owned by subsequent generations of the Metcalfe family. It was an old company from Coventry that was established after the First World War and has been in Blaenau since September 1954. She started working for them in 1955 and was there for forty years. She retired when she was sixty nine.

17.08:

There were two unions there – one of which was for the electricians. There was no union for the office workers. There were minor accidents occasionally, but nothing major.

They had two weeks holiday a year and all the bank holidays. Some workers travelled to the factory on the bus from Trawsfynydd, and at one time they travelled by train from Trawsfynydd to Blaenau. By this time she had her own staff and secretary, and her secretary

would come by bus and be in work shortly after eight o'clock and leave at four. Pegi would be there until half past eight. Pegi felt this woman left work at the busiest time, when the other women were trying to finish their work. She and Mr Richards would put their work on tape for them, leaving her free to do other work. It could get quite busy typing the letters and answering the phones.

Pegi enjoyed the work but didn't go on any training courses while she was there. Computers were introduced when she was nearly due to finish there, and she sent the girls on courses.

The accounts office did the wages. It was a lot of work because they weren't paid on a flat rate basis, and what they turned out was weighed in order to calculate their pay. The wages were even more complicated in Tudors because they had quarry workers, men working in the forests, office workers and others.

22.26

Pegi talks about Glynllifon and its background and the work Tudor did on the large estates, cutting down trees. Tudor bought Glynllifon from Lord Newborough. They'd known for a year that things were going to be sold off. When the contents of the house were auctioned the Tudors weren't allowed to bid so she would represent them but would never pay more than five pounds for anything. Tudor was forced to sell the place due to a compulsory purchase order from Caernarfon council who wanted to turn it into an agricultural college.

Throughout her working life Pegi has managed men including on the factory floor. She would never have to ask any man to do anything for her but would rather suggest that they do something for her.

29.00

'To me a general conversation with women ... about curtains, and cooking and children and shopping and – no, I'm not interested ...'

Even though she's ninety she uses a computer and still drives. Her engineering skills have endured. She's not sure whether she would have followed the same path today. She had to delay her wedding because of the large project in Conway. She thinks she's good at managing men without them realising they are being managed.